

ORDER

ROAD TRAFFIC REGULATION ACT 1984

THE CEREDIGION COUNTY COUNCIL **(VARIOUS ROADS, CARDIGAN, CEREDIGION)** **(24 HOUR CLEARWAY) ORDER 2014**

Ceredigion County Council (hereinafter referred to as “the Council”), in exercise of its powers under sections 1(1) and (2) and 2(1) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984 as amended (hereinafter referred to as “the 1984 Act”) and of all other enabling powers, and after consultation with the chief officer of police in accordance with Part III of Schedule 9 to the 1984 Act, hereby makes the following Order.

PART I – GENERAL

1. CITATION AND COMMENCEMENT

- (a) This Order may be cited as “The Ceredigion County Council (Various Roads, Cardigan, Ceredigion) (24 Hour Clearway) Order 2014” and shall come into operation on the 30th day of May 2014.
- (b) The Ceredigion County Council (Various Roads, Cardigan, Ceredigion) (24 Hour Clearway) Order 2014 plans (hereinafter referred to as “the Plans”) listed in the Schedule are incorporated into this Order.

2. INTERPRETATION AND DEFINITIONS

- (a) In this Order, except where the context otherwise requires, the following have the meanings hereby respectively assigned to them.
 - (i) “the 1984 Act” means the Road Traffic Regulation Act 1984.
 - (ii) “24 hours” means 24 hours on each calendar day of the year.
 - (iii) “carriageway” means any length of road used primarily by through traffic and includes a slip road but excludes any lay-by.
 - (iv) “civil enforcement officer” has the same meaning as in section 76 of the Traffic Management Act 2004.
 - (v) “clearway” means those lengths of road as specified in the Plans and includes the entire width of the highway, but excludes any lay-by.
 - (vi) “the Council” means Ceredigion County Council.
 - (vii) “footway” means a way comprised in a highway which also comprises a carriageway over which the public have a right on foot only.
 - (viii) “highway” means a way over which members of the public have the right to pass and repass without hindrance and not on sufferance or by licence, the extent of which shall include the carriageway and any footways, verges, roadside wastes or combinations thereof.

GORCHYMYN

DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984

GORCHYMYN CYNGOR SIR CEREDIGION **(FFYRDD AMRYWIOL, ABERTEIFI, CEREDIGION)** **(CLIRFFORDD 24 AWR) 2014**

Mae Cyngor Sir Ceredigion (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”), gan ymarfer ei bwerau dan adrannau 1(1) a (2) a 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”), a phob pŵer galluogi arall, ac yn sgil ymgynghoriad â phrif swyddog yr heddlu'n unol â Rhan III o Atodlen 9 Deddf 1984, gyda hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

RHAN 1 - CYFFREDINOL

1. ENWI A CHYCHWYN

- (a) Enwir y Gorchymyn hwn yn “Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Ffyrdd Amrywiol, Aberteifi, Ceredigion) (Clirffordd 24 Awr) 2014” a bydd yn dod i rym ar y 30^{ain} diwrnod o Fai 2014.
- (b) Mae cynlluniau Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Ffyrdd Amrywiol, Aberteifi, Ceredigion) (Clirffordd 24 awr) 2014 (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel “y Cynlluniau”) a restrir yn yr Atodlen, wedi'u hymgorffori yn y Gorchymyn hwn.

2. DEHONGLIAD A DIFFINIADAU

- (a) Yn y Gorchymyn hwn, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd y canlynol yn dwyn yr ystyron a neilltuir iddynt isod yn eu tro.
 - (i) Mae “Deddf 1984” yn golygu Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.
 - (ii) Mae “24 awr” yn golygu 24 awr ym mhob bob diwrnod calendr o'r flwyddyn.
 - (iii) Mae “cerbyttfordd” yn golygu unrhyw ddarn o ffordd a ddefnyddir yn bennaf gan draffig trwodd, sy'n cynnwys slipffyrdd ond yn eithrio cilfannau.
 - (iv) Mae “swyddog gorfodi sifil” yn dwyn yr un ystyr ag yn adran 76 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004.
 - (v) Mae “clirffordd” yn golygu'r rhannau hynny o'r ffordd a nodir yn y Cynlluniau, ac mae'n cynnwys holl led y briffordd, ar wahân i unrhyw gilfannau.
 - (vi) Mae “y Cyngor” yn golygu Cyngor Sir Ceredigion.
 - (vii) Mae “troedffordd” yn golygu llwybr sy'n rhan o briffordd, sydd hefyd yn cynnwys cerbyttfordd y mae gan y cyhoedd hawl i gerdded arni'n unig.
 - (viii) Mae “priffordd” yn golygu ffordd y mae gan aelodau'r cyhoedd yr hawl i'w defnyddio a'i hail-ddefnyddio'n ddirwystr, ac nid gyda chaniatâd neu

- (ix) "lay-by" means any area of road intended for use for the waiting of vehicles and lying at the side of the main carriageway and bounded partly by the outer edge of that carriageway on that side of the road.
 - (x) "Order" means Ceredigion County Council (Various Roads, Cardigan, Ceredigion) (24 Hour Clearway) Order 2014.
 - (xi) "penalty charge" shall have the same meaning as in the Civil Enforcement of Parking Contraventions (General Provisions) (Wales) Regulations 2013.
 - (xii) "penalty charge notice" shall have the same meaning as in the Civil Enforcement of Parking Contraventions (General Provisions) (Wales) Regulations 2013.
 - (xiii) "the Plans" means the Ceredigion County Council (Various Roads, Cardigan, Ceredigion) (24 Hour Clearway) Order 2014 plans listed in the Schedule which are incorporated into this Order.
 - (xiv) "postal packet" has the same meaning as in the Postal Services Act 2000.
 - (xv) "public service vehicle" has the same meaning as in the Public Passenger Vehicles Act 1981.
 - (xvi) "road" has the same meaning as highway.
 - (xvii) "universal postal service" has the same meaning as in the Postal Services Act 2000.
 - (xviii) "universal service provider" has the same meaning as in the Postal Services Act 2000.
 - (xix) "verge" means any part of a road which is not a main carriageway, footway or lay-by.
- (b) For the purpose of this Order, the prohibitions and restrictions contained in the articles to this Order and shown on the Plans shall apply to the full extent of the highway.
- (c) For the purpose of this Order, a vehicle shall be taken as waiting on a length of road if any point on the length of road is below the vehicle or its load or trailer (if any).
- (d) The prohibitions and restrictions imposed by this Order shall be in addition to and not in derogation of any restriction, prohibition or requirement imposed by any regulations or orders made or having effect as if made under the 1984 Act, or by or under any other enactment.
- (e) Insofar as any provision of this Order conflicts with the effect of markings placed on the carriageway, conveying the existence of a 'bus stop clearway' then the effect of those markings and the existence of that bus stop clearway shall prevail.
- (f) For the purposes of this Order, Ceredigion County Council accepts no responsibility for any inaccuracies contained in the Ordnance Survey data relied upon in preparation of the Plans. Where a prohibition or restriction applies to the a length of carriageway or highway, that prohibition or restriction will continue to apply to the actual edge of the highway irrespective of changes either to the carriageway or highway width or to the underlying Ordnance Survey data.

- drwydded, sy'n cwmpasu'r gerbyttfordd ac unrhyw droedffyrdd, ymylon ffyrdd neu leiniau segur, neu gyfuniadau o'r rhain.
- (ix) Mae "cilfan" yn golygu unrhyw ran o'r ffordd sydd at ddefnydd cerbydau sy'n aros, ac sydd ar ochr y brif gerbyttfordd ac wedi'i ffinio'n rhannol gan ymyl allanol y gerbyttfordd honno ar yr ochr honno o'r ffordd.
 - (x) Ystyr "y Gorchymyn" yw Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Ffyrdd Amrywiol, Aberteifi, Ceredigion) (Clirffordd 24 Awr) 2014.
 - (xi) Mae "tâl cosb" yn dwyn yr un ystyr ag yn Rheoliadau Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.
 - (xii) Mae "hysbysiad tâl cosb" yn dwyn yr un ystyr ag yn Rheoliadau Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.
 - (xiii) Mae "cynlluniau" yn golygu cynlluniau Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Ffyrdd Amrywiol, Aberteifi, Ceredigion) (Clirffordd 24 awr) 2014 a restrir yn yr Atodlen, sydd wedi'i hymgorffori yn y Gorchymyn hwn.
 - (xiv) Mae "pecyn post" yn dwyn yr un ystyr ag yn Neddf Gwasanaethau Post 2000.
 - (xv) Mae "cerbyd gwasanaeth cyhoeddus" yn dwyn yr un ystyr ag yn Neddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981.
 - (xvi) Mae "ffordd" yn dwyn yr un ystyr â phriffordd.
 - (xvii) Mae "gwasanaeth post byd-eang" yn dwyn yr un ystyr ag yn Neddf Gwasanaethau Post 2000.
 - (xviii) Mae "darparwr gwasanaeth byd-eang" yn dwyn yr un ystyr ag yn Neddf Gwasanaethau Post 2000.
 - (xix) Mae "ymyl" yn golygu unrhyw ran o'r ffordd nad yw'n cerbyttfordd, troedffordd neu gilfan.
- (b) At ddiben y Gorchymyn hwn, bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a geir yn erthyglau'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir ar y Cynlluniau'n berthnasol ar gyfer y briffordd yn ei chyfanrwydd.
 - (c) At ddiben y Gorchymyn hwn, ystyrir bod cerbyd yn aros ar ddarn o ffordd os bydd unrhyw ran o'r darn honno o'r ffordd islaw'r cerbyd neu'i lwyth neu'i ôl-gerbyd (os oes un).
 - (d) Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn llacio unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a osodir gan unrhyw reoliadau neu orchmynion a wnaed, neu a weithredir fel petaent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu dan unrhyw ddeddfiad arall.
 - (e) I'r graddau y mae unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gwrthdaro ag effaith marciau a osodwyd ar y gerbyttfordd sy'n cyfleu presenoldeb 'clirffordd arhosfan bysiau', bydd effaith y marciau hynny a phresenoldeb y glirffordd arhosfan bws yn cael goruchafiaeth
 - (f) At ddibenion y Gorchymyn hwn, nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wallau a geir yn y data Arolwg Ordians y dibynnwyd arno wrth baratoi'r Cynlluniau. Lle bo gwaharddiad neu gyfyngiad yn ei le ar gyfer darn o gerbyttfordd neu briffordd, bydd y gwaharddiad neu'r cyfyngiad hwnnw'n dal i fod yn berthnasol ar gyfer ymyl go iawn y briffordd, waeth pa newidiadau a wneir i led un ai'r gerbyttfordd neu'r briffordd, neu i'r data Arolwg Ordians sylfaenol.

- (g) Any reference in this Order to a numbered article or schedule shall, unless the context requires otherwise, be construed as a reference to the article or schedule bearing that number in this Order, and any reference to a plan is a reference to a plan incorporated into this Order.
- (h) The Interpretation Act 1978 shall apply to the interpretation of this Order as it applies for the interpretation of an Act of Parliament.
- (i) Any reference in this Order to any enactment shall be construed as a reference to that enactment as amended by any subsequent enactment.

PART 2 – GENERAL PROVISIONS RELATING TO CLEARWAYS

- 3. Save as provided in Article 4 of this Order, no person shall, except upon the direction of or with the permission of a police officer in uniform or of a civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to stop or to wait on the main carriageway, verge or footway comprised in the lengths of road as specified in the Plans to this Order at any time (24 hours).
- 4. Nothing in Article 3 of this Order shall apply:
 - (a) to render it unlawful to cause or permit a vehicle to stop or to wait on the main carriageway, verge or footway referred to therein, for so long as may be necessary to enable that vehicle to be used in connection with –
 - (i) the removal of any obstruction to traffic;
 - (ii) the maintenance, improvement or reconstruction of the road comprising the carriageway, verge or footway; or
 - (iii) the laying, erection, inspection, maintenance, alteration, repair or cleaning of any sewer, main, pipe, conduit, wire, cable or other apparatus for the supply of gas, water, electricity or of any telecommunications apparatus as defined in Schedule 2 to the Telecommunications Act 1984; or
 - (b) in relation to a vehicle being used –
 - (i) for police, ambulance or fire and rescue authority purposes;
 - (ii) in the service of a local authority in pursuance of statutory powers or duties;
 - (iii) for so long as is necessary for a public service vehicle undertaking a local public service route to pick up or set down passengers;
 - (iv) in the service of a water or sewerage undertaker within the meaning of the Water Industry Act 1991;
 - (v) by a universal service provider in the course of the provision of a universal postal service, if stationary only for so long as may be necessary for postal packets to be delivered or collected, subject to the vehicle being a liveried vehicle; or
 - (vi) to a vehicle waiting on the highway while any gate or other barrier at the entrance to premises to which the vehicle requires access or from which it has emerged is opened or closed, if it is not reasonably practicable for the vehicle to wait otherwise than on that highway; or

- (g) Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu atodiad rhifedig, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, fel cyfeiriad at yr erthygl neu'r atodiad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn, ac unrhyw gyfeiriad at gynllun fel cyfeiriad at gynllun sydd wedi'i ymgorffori yn y Gorchymyn hwn.
- (h) Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol mewn perthynas â dehongli'r Gorchymyn hwn fel bo'n berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.
- (i) Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfiad dilynol.

RHAN 2 – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL MEWN PERTHYNAS Â CHLIRFFYRDD

3. Ar wahân i'r ddarpariaeth a geir yn Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw berson, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd swyddog o'r heddlu sydd ar ddyletswydd, neu swyddog gorfodi sifil, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros neu oedi ar y brif gerbyttfordd, ymyl y ffordd neu droedffordd sy'n rhan o'r darnau o ffordd a nodir yn y Cynlluniau i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg (24 awr).
4. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn berthnasol:
 - (a) i'w gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd aros neu oedi ar y brif gerbyttfordd, ymyl y ffordd neu'r droedffordd a nodir yn y Gorchymyn hwn, cyn belled â bod angen caniatáu defnydd o'r cerbyd hwnnw mewn perthynas â -
 - (i) symud unrhyw beth sy'n rhwystro'r traffig;
 - (ii) cynnal a chadw, gwella neu ail-adeiladu'r ffordd, gan gynnwys y gerbyttfordd, ymyl y ffordd neu'r droedffordd; neu
 - (iii) gosod, codi, archwilio, cynnal a chadw, altro, trwsio neu lanhau unrhyw garthffos, prif bibell, dyfrbibell, gwifren, cebl neu unrhyw gyfarpar arall ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr, trydan neu unrhyw gyfarpar telathrebu fel y'i diffinnir yn Atodiad 2 o Ddeddf Telathrebu 1984; neu
 - (b) mewn perthynas â cherbyd sy'n cael ei ddefnyddio -
 - (i) at ddibenion yr heddlu, ambiwlans neu awdurdod tân ac achub;
 - (ii) at wasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;
 - (iii) am ba bynnag hyd sydd ei angen ar gerbyd gwasanaeth cyhoeddus sy'n dilyn llwybr gwasanaeth cyhoeddus lleol i gasglu neu ollwng teithwyr;
 - (iv) at wasanaeth ymgymwrwr dŵr neu garthffosiaeth yn unol â'i ystyr o fewn Deddf Diwydiant Dŵr 1991;
 - (v) gan ddarparwr gwasanaeth byd-eang yn ystod y broses o ddarparu gwasanaeth post byd-eang, cyn belled â'i fod yn llonydd am gyhyd ag y bo angen i ddosbarthu neu gasglu pecynnau post yn unig, a chyn belled â bod y cerbyd yn un swyddogol; neu
 - (vi) cerbyd sy'n aros ar y briffordd tra bod unrhyw gatiâu neu fariau ger mynedfa'r eiddo mae'r cerbyd am gael mynediad iddo, neu mae newydd ddod ohono, yn agor neu'n cau, os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r cerbyd aros mewn man arall yn hytrach na'r briffordd; neu

- (c) in relation to a vehicle waiting when the person in control of it is –
 - (i) required by law to stop;
 - (ii) obliged to stop in order to avoid an accident; or
 - (iii) prevented from proceeding by circumstances outside his or her control.

PART 3 – CONTRAVENTION OF RESTRICTIONS

- 5. Where a vehicle has been left in contravention of the restrictions imposed by this Order, a penalty charge shall be incurred. A penalty charge notice may be served by the Council and / or the vehicle may be removed from its location. This will be in addition to, and not in derogation of, any powers held by the police authority in respect of contraventions of the restrictions imposed by this Order.
- 6. Where a penalty charge is payable, a penalty charge notice shall be issued in accordance with the Traffic Management Act 2004.
- 7. Where a notice has been attached to a vehicle in accordance with the provisions of the Traffic Management Act 2004, no person not being the driver of the vehicle or a duly authorised representative of the Council shall remove the notice from the vehicle unless authorised to do so by the driver.

PART 4 – REMOVAL, ALTERATION OF THE POSITION AND IMMOBILISATION OF A VEHICLE

- 8. (a) When a vehicle is left on a clearway in contravention of any of the provisions contained in the Articles to this Order, a person authorised by the Council to do so may remove the vehicle or arrange for it to be removed from that clearway, or may alter or cause to be altered the position of the vehicle so that its position shall comply with that provision, or immobilise that vehicle.
 - (b) Any person removing a vehicle or altering its position by virtue of Article 8(a) of this Order may do so in such manner as he or she thinks necessary.
 - (c) When a person authorised by the Council removes or makes arrangements for the removal of a vehicle by virtue of Article 8(a) of this Order, he or she shall make such arrangements as may be reasonably necessary for the safe custody of the vehicle.
- 9. A police constable in uniform may move or cause to be moved, in case of emergency, to any place he or she thinks fit, any vehicle left on a clearway and shall provide for the safe custody of the vehicle. In the event of a vehicle being removed within the provisions of this Article, the Council will not be responsible for any damage so caused.

- (c) mewn perthynas â cherbyd sy'n aros pan fydd y person sy'n ei reoli -
- (i) yn gorfod stopio yn ôl y gyfraith;
 - (ii) yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu
 - (iii) sydd wedi'i atal rhag symud ymlaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

RHAN 3 – TORRI'R CYFYNGIADAU

5. Pan fydd cerbyd wedi'i adael mewn man sy'n mynd yn groes i'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn, codir tâl cosb. Gall y Cyngor gyflwyno hysbysiad tâl cosb a/neu gellir symud y cerbyd o'i leoliad. Bydd hyn yn ychwanegol at, ac nid yn lleihau unrhyw bwerau a ddelir gan awdurdod yr heddlu mewn perthynas â thorri'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn.
6. Pan fydd tâl cosb yn daladwy, cyflwynir hysbysiad tâl cosb yn unol â Deddf Rheoli Traffig 2004.
7. Pan fydd hysbysiad wedi'i osod ar gerbyd yn unol â darpariaethau Deddf Rheoli Traffig 2004, ni chaiff unrhyw berson nad yw'n yrrwr y cerbyd, neu'n gynrychiolydd sydd wedi'i awdurdodi'n briodol gan y Cyngor, symud yr hysbysiad o'r cerbyd oni bai ei fod wedi'i awdurdodi i wneud hynny gan y gyrrwr.

RHAN 4 – SYMUD, NEWID SAFLE AC ATAL CERBYD RHAG SYMUD

8. (a) Pan fydd cerbyd wedi'i adael ar glirffordd ac yn mynd yn groes i unrhyw ddarpariaethau a geir yn Erthyglau'r Gorchymyn hwn, gall person a awdurdodwyd i wneud hynny gan y Cyngor symud y cerbyd, neu drefnu iddo gael ei symud oddi ar y glirffordd honno, neu gall newid, neu achosi i safle'r cerbyd newid, fel bod ei safle'n cydymffurfio â'r ddarpariaeth honno, neu atal y cerbyd rhag symud.
 - (b) Gall unrhyw berson sy'n symud cerbyd neu'n newid ei safle yn rhinwedd Erthygl 8(a) o'r Gorchymyn hwn wneud hynny mewn unrhyw fodd sy'n angenrheidiol yn ei dyb ef neu hi.
 - (c) Pan fydd person sydd wedi'i awdurdodi gan y Cyngor i symud neu wneud trefniadau i symud cerbyd yn rhinwedd Erthygl 8(a) o'r Gorchymyn hwn, bydd ef neu hi'n gwneud unrhyw drefniadau a fernir yn rhesymol angenrheidiol i sicrhau diogelwch y cerbyd.
9. Gall swyddog o'r heddlu sydd ar ddyletswydd symud neu drefnu i symud, mewn argyfwng, i unrhyw fan a fernir yn addas yn ei farn ef neu hi, unrhyw gerbyd a adawyd ar y glirffordd, a bydd yn sicrhau diogelwch y cerbyd. Os digwydd bod cerbyd yn cael ei symud o fewn darpariaethau'r Erthygl hon, ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir.

PART 5 – VALIDITY

10. If a court, the Welsh Government, the Traffic Penalties Tribunal or the Traffic Enforcement Centre declares any part of this Order to be invalid or unenforceable; such declaration shall not invalidate the remainder of the Order.

GIVEN under the Common Seal of Ceredigion County Council this 27th day of May Two Thousand and Fourteen.

The COMMON SEAL of)
CEREDIGION COUNTY COUNCIL)
was hereunto affixed in the presence of)

John Adams-Lewis

Chairman

[Signature]

Head of Legal, Human Resources and
Democratic Services



RHAN 5 - DILYSRWYDD

10. Os bydd llys, Llywodraeth Cymru, y Tribiwnlys Cosbau Traffig neu'r Ganolfan Gorfodi Traffig yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy; ni fydd datganiad o'r fath yn golygu bod gweddill y Gorchymyn yn annilys.

RHODDWYD dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ceredigion y 27^{ain} diwrnod hwn o Fai Dwy Fil a Phedair ar Ddeg.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN
CYNGOR SIR CEREDIGION
i hwn ym mhresenoldeb

)
)
)

6289



John Adams-Lewis

Cadeirydd

[Signature]

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol,
Adnoddau Dynol a Democrataidd

SCHEDULE

CLEARWAY 1
CLEARWAY 2
CLEARWAY 3

ATODLEN

CLEARWAY 1
CLEARWAY 2
CLEARWAY 3



Cwmpas y gliffordd
Extent of clearway



Gorchymyn (Cliffordd 24 Awr) (Ffyrdd Amrywiol, Aberteifi) Cyngor
Sir Ceredigion 2014
Ceredigion County Council (Various Roads, Cardigan) (24 Hour
Clearway) Order 2014

© Hawlfrant y Goron a hawliau corff ddata 2014 Arddangos Ordnans 100024419, NI chaniatáu i chi gopïo,
is-ddwyddeddu, dosbarthu neu weithu unrhyw ran o'r data hwn a unrhyw ffrâm i ddyddiedd part.
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100024419. You are not permitted to copy,
sub-license, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Graddfa ar A3 / Scale at A3:

1:1,500



GOLEUD
NORTH

Dyddiad / Date: 03/04/14

Cyfeirnod map:
Map ref:

CLEARWAY1



Cwmpas y gliffordd
Extent of clearway



Gorchymyn (Gliffordd 24 Awr) (Ffyrdd Amrywiol, Aberteifi) Cyngor
Sir Ceredigion 2014
Ceredigion County Council (Various Roads, Cardigan) (24 Hour
Clearway) Order 2014

© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100024419, NI chaniela'r llochi gofio,
is-dwyddeddu, dosbarthu neu weithu unrhyw ran o ddata hwn a unrhyw ffurfi ddyddiedd part.
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100024419. You are not permitted to copy,
sub-publish, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Graddfa ar A3 / Scale at A3:

1:1,500



Dyddiad / Date: 03/04/14

Cyfeirnod map:
Map ref.

CLEARWAY2

Cardigan
Secondary
(Ysgol Uwch
Aberte)



1000

Graddfa ar A3 / Scale at A3:
1:1,500

Dyddiad / Date: 03/04/14

**GOGLEDD
NORTH**

Cyfeirnod map:
Map ref:

Map ref:

CLEARWAY3

